

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ward Bryngofal, Ysbyty Tywysog Philip

Dyddiad y gweithgarwch: 26 Hydref 2020

Dyddiad cyhoeddi: 24 Tachwedd 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliwyd gwiriad ansawdd o bell gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Ward Bryngofal, Ysbyty Tywysog Philip fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward (dros dro) ar 26 Hydref 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom adolygu polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i amgylchedd y ward o ganlyniad i'r pandemig. Roedd y ward wedi lleihau nifer ei gwelyau o 18 i 16 er mwyn sicrhau bod parthau coch ar gael ar gyfer cleifion symptomatig a chleifion COVID-19. Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi cael eu rhoi ar waith, sy'n cynnwys aildrefnu'r ardaloedd bwyta fel bod mwy o le rhwng y byrddau a'r cleifion. Mae sgrin Perspex wedi cael ei gosod yn ardal weini'r gegin er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff wrth weini bwyd. Mae gan gleifion eu hystafelloedd en-suite eu hunain a dylid defnyddio'r rhain tra bod y toiledau cymunedol wedi'u cau dros dro.

Mae'r tîm rheoli heintiau wedi rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn sicrhau bod arferion gorau a threfniadau glanhau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith. Mae PPE ar gael ym mhob rhan o'r ward ar gyfer y staff, y cleifion a'r ymwelwyr. Mae defnyddio technoleg gwybodaeth (TG) ar gyfer cyfarfodydd rhithwir wedi galluogi pobl i gyfathrebu'n barhaus. Yn ogystal â hyn, mae cyfarfodydd staff/prosesau trosglwyddo rhwng sifftiau wedi cael eu hadleoli i ystafell fwy. Mae hyn yn galluogi i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu cynnal.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ymweld wedi cael eu newid yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a'r bwrdd iechyd. Er na chaniateir ymwelwyr ar y ward, lle y bo'n berthnasol, gwnaed paratodau ar gyfer ymweliadau oddi ar y ward a fyddai'n cefnogi mesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae newidiadau i amseroedd ymweld a threfniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty dros dro yn cael eu monitro mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau bod risgiau a galluedd/dealltwriaeth y cleifion yn cael eu cadarnhau.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau sydd ar waith, mae dulliau cyfathrebu amgen yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Defnyddir iPads y ward a dyfeisiau'r cleifion eu hunain. Dywedwyd wrthym y gellir helpu'r cleifion i wneud galwadau 'face-time' ac anfon e-byst. Yn ogystal â hyn, gall cleifion ddefnyddio ffôn y ward.

Dywedwyd wrthym fod arferion y cleifion yn cael eu cadw mor normal â phosibl. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â diflastod o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, roedd gweithgareddau ychwanegol yn cael eu cynnig ar y ward. Roedd cyfarfodydd cleifion yn parhau i gael eu cynnal ac roedd y staff yn darparu'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19. Dywedodd rheolwr y ward ei fod yn ddiolchgar i'r staff am eu hymdrechion yn ystod y pandemig i gadw'r cleifion yn brysur.

Cawsom dystiolaeth o nifer o bolisiau a gweithdrefnau yn ymwneud â COVID-19 a oedd yn benodol i'r gyfarwyddiaeth iechyd meddwl. Dywedwyd wrthym fod cyflenwadau digonol o PPE ar gyfer y staff, y cleifion a'r ymwelwyr. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE yn gywir a chynnal prawf ffitio masgiau.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gleifion ar y ward wedi cael prawf COVID-19 cadarnhaol, ac nad oedd ganddynt unrhyw heintiau eraill a gafwyd wrth gael gofal iechyd ar adeg ein galwad. Dywedwyd wrthym am y systemau a oedd ar waith i sicrhau bod cleifion a oedd mewn perygl o ddatblygu COVID-19, neu heintiau eraill, yn cael eu nodi'n gyflym.

Roedd yr hunanasesiad a gyflwynwyd yn nodi bod yn rhaid i dîm y ward addasu ei ffyrdd o weithio drwy'r cyfnod anodd hwn. O ganlyniad, roedd y tîm yn tyfu o ran cadernid ac yn addasu'n briodol yn unol â newidiadau i ganllawiau a pholisiâu. Yn ogystal â'r gwasanaethau llesiant a oedd yn bodoli eisoes i staff, dywedwyd wrthym fod cymorth seicolegol a mwy o sesiynau goruchwyllo, gwasanaethau cwnsela am ddim a chymorth gan gymheiriaid ar gael i'r staff.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd o ganlyniad i COVID-19. Mae PPE a hylif diheintio dwylo bellach ar gael. Mae amserlenni glanhau wedi cael eu diwygio fel bod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau ward wythnosol a gynhaliwyd gan y rheolwr, a gwblhawyd ym mis Medi 2020. Edrychwyd ar y ddogfen a gwelsom nad oedd rhai camau wedi cael eu cymryd eto, a nodir isod. Dywedwyd wrthym fod y larymau wedi cael eu trwsio a'u bod bellach ar gael drwy'r ward gyfan, a bod larymau ychwanegol wedi cael eu prynu er mwyn sicrhau bod digon ohonynt ar gael ar y ward/wrth gefn.

Dywedwyd wrthym nad yw triniaeth glinigol y cleifion na'r camau ymyrryd a gymerir mewn perthynas â nhw wedi newid yn sylweddol yn ystod y pandemig. Mae cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol allanol, wedi parhau ac mae'r holl adolygiadau a drefnwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi cael eu cynnal o fewn yr amserlenni rhagnodedig. Cafodd cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu gohirio ar ddechrau'r

pandemig, gan ddefnyddio ffonau a galwadau fideo i sicrhau bod y cleifion yn parhau i allu cael gfael ar wasanaethau proffesiynol allanol, gan gynnwys gwasanaethau eirioli. Mae rhai ymweliadau wyneb yn wyneb wedi aildechrau yn ddiweddar gan gydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol.

O'r trafodaethau â rheolwr y ward, cawsom sicrwydd y byddai unrhyw aelod o'r staff a oedd yn cael diagnosis o COVID-19 yn cael ei reoli'n briodol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Roedd dogfen gwiriadau ward wythnosol y rheolwr a gyflwynwyd yn cynnwys rhai materion nad oeddent wedi'u datrys eto. Dywedwyd wrthym nad oedd y drws tân a oedd wedi torri wedi cael ei adnewyddu eto, ond fod y drws newydd wedi cael ei archebu. Mae angen i'r cam hwn gael ei gwblhau ar fyrder er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y ward rhag y risg o dân. Hefyd, dywedwyd wrthym am rai materion hirsefydledig eraill y mae angen mynd i'r afael â nhw a'u blaenoriaethu ar gyfer y ward.

Gwelsom dystiolaeth o ddata digwyddiadau ac rydym yn cydnabod bod nifer y digwyddiadau ar ward Bryngofal ymhlith yr uchaf yn y bwrdd iechyd. Mae hyn wedi'i ddogfennu yn y ffurflen hunanasesu yn ogystal ag yn yr adroddiad chwarterol ar gyfer ymarfer clinigol mewn perthynas ag ymyriadau corfforol cyfyngol ym maes gwasanaethau iechyd meddwl. Er y cytunir y gallai ward aciwt fel Bryngofal ddisgwyl derbyn cleifion sy'n dioddef yr achosion o salwch mwyaf aciwt, mae angen sicrhau bod y data a ddarperir yn yr hunanasesiad yn cynnwys mwy o fanylion/dadansoddiadau o'r digwyddiadau hyn.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys y Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer COVID-19.

Cawsom nifer o archwiliadau sy'n cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Dangosodd archwiliad rheoli ac atal heintiau a gwblhawyd ym mis Awst 2020 gyfradd gydymffurfio o 91 y cant. Roedd y meysydd a gwmpaswyd yn yr archwiliad hwn yn cynnwys gwiriadau o hylendid dwylo a glendid cyfarpar. Gwnaethom ofyn a oedd y camau gweithredu yn yr archwilad 'Credits for Cleaning' (C4C) wedi cael eu cwblhau a dywedwyd wrthym nad oedd pob un o'r camau hyn wedi cael eu cymryd. Mae angen i'r ddogfen hon gael ei hadolygu ac mae angen cymryd unrhyw gamau nad ydynt wedi cael eu cymryd eto.

Dywedwyd wrthym fod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach ym mhob rhan o'r ysbyty a bod gorsafoedd PPE ar gael wrth fynedfa'r ward. Mae cyfleusterau golchi dwylo ar gael i'r cleifion a'r staff ym mhob rhan o'r ward.

Dywedwyd wrthym am y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i nodi unrhyw staff neu gleifion a allai fod mewn perygl o ddatblygu COVID-19. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y polisi llwybr cleifion mewnol ar gyfer COVID-19, a oedd yn cynnwys siartiau llif a thablau camau gweithredu. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad, bydd y sefydliad yn penderfynu a oes angen i'r aelod hwnnw o staff hunanynysu neu osgoi ardaloedd y cleifion.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac yn eu cyflawni. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y data cydymffurfiaeth a gyflwynwyd ar gyfer hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Yn ogystal â hyn, darparwyd hyfforddiant gwisgo a diosg PPE a hyfforddiant masgiau FFP3 i'r staff. O ganlyniad i'r mesurau hyn, nid oedd unrhyw achosion cyfredol o heintiau Clostridiwm Difficile na Norofeirws.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom niferoedd staffio y dywedwyd wrthym eu bod yn ddigonol i sicrhau gofal a diogelwch cleifion ar y ward. Dywedwyd wrthym y gall aciwtedd cleifion amrywio heb unrhyw batrwm rhagfynegadwy. O ganlyniad i hyn, mae'r lefelau a'r gofynion staffio yn cael eu hadolygu bob dydd er mwyn helpu'r tîm i ddarparu gofal diogel ac effeithlon. Yn ystod oriau gwaith, bydd rheolwr y ward yn sicrhau bod lefelau staffio yn ddiogel. Gall y nyrs â chyfrifoldeb y tu allan i oriau gysylltu â'r cydlynnydd clinigol y tu allan i oriau er mwyn uwchgyfeirio materion staffio.

Dywedwyd wrthym fod staff banc yn cael eu defnyddio er mwyn cyflenwi ar gyfer salwch, swyddi gwag, aciwtedd cleifion ac er mwyn cyflenwi ar gyfer unigolion sydd wedi'u heithrio rhag gweithio ar sail feddygol o ganlyniad i resymau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Ym mis Mawrth 2020, cafodd cyfleuster adran 163 ei ganoli ar ward Bryngofal ar gyfer y bwrdd

iechyd cyfan. O ganlyniad i hyn, cafodd nifer y staff fesul sifft ei gynyddu a defnyddiwyd staff banc i ddarparu'r staff ychwanegol.

Roedd y data a ddarparwyd yn dangos bod gan y ward swyddi gwag ar gyfer dwy nyrs iechyd meddwl gofrestrdig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd ac roedd dau aelod o'r staff yn absennol oherwydd salwch hirdymor. Roedd y ward yn recriwtio ar gyfer y swyddi gwag hyn a bydd hyn yn sicrhau bod gan y ward dîm llawn o staff.

Cawsom ddata cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol i'r staff. Er bod nifer o feysydd yn dangos cyfraddau cydymffurfiaeth uchel (cydymffurfiaeth o 75 y cant ar y cyfan), nodwyd materion yr oedd angen eu hadolygu. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod yn yr adran Gwelliannau a Nodwyd. Dywedwyd wrthym fod cyfrifiaduron ar gael i'r staff er mwyn cwblhau hyfforddiant ar-lein a bod rheolwr y ward yn annog ei staff i gwblhau eu hyfforddiant pan fydd hi'n dawel ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod digon o gefnogaeth ar gael i'r staff. Roedd y data a gafwyd yn dangos cyfraddau cydymffurfio uchel o ran arfarniadau'r staff. Dywedodd rheolwr y ward wrthym, yn ogystal â'r broses ddyddiol o drosglwyddo rhwng sifftiau, fod cyfarfodydd staff wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod gan y staff wybodaeth gyfredol. Yn ogystal â'r cynllun cymorth i gyflogeion, roedd y tîm seicoleg yn cynnig cymorth i unrhyw aelod o'r staff a allai fod yn dioddef o orbryder neu gyflwr tebyg o ganlyniad i COVID-19. Mae rheolwr y ward yn cynnal sesiynau goruchwyllo bob mis gyda phob aelod o'r staff ac mae ganddo bolisi drws agored ar waith.

Roedd rheolwr y ward hefyd yn llawn canmoliaeth i'r staff a'r gwaith roeddent wedi'i gyflawni yn ystod y pandemig.

Ni chawsom gopi o'r polisi uwchgyfeirio, ond cawsom gopi o'r weithdrefn gwyno, Gweithio i Wella. Dywedodd rheolwr y ward wrthym y byddai unrhyw achos o risg uniongyrchol yn cael ei uwchgyfeirio at yr unigolyn/unigolion priodol yn syth. Mae cyfarfodydd rheolaidd sy'n cynnwys uwch-aelodau o'r staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn darparu llwyfannau ar gyfer trafod materion.

Parhawyd i gynnal adolygiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac i fod mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol, gan gynnwys cymorth eirioli, drwy alwadau ffôn a fideogynadledda.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom nad oedd y data yn cyfateb yn llawn â'r trafodaethau a gafwyd gyda rheolwr y ward. Dywedwyd wrthym mai'r prif reswm dros hyn yw bod oedi yn y system. Mae'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ond nid yw'n cael ei gydnabod yn gyflym gan y system gofnodi. Er enghraifft, gwelsom fod y data a ddarparwyd yn nodi mai dim ond 50% o'r asesiadau risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu a oedd wedi cael eu cwblhau.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod asesiadau wedi'u cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff, ac felly dylai'r data nodi cydymffurfiaeth o 100%.

Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar ffurf ystafell ddsbarth wedi cael ei ohirio o ganlyniad i fesurau cadw pellter cymdeithasol a mesurau diogelwch. Mae'r data hyfforddiant a ddarperir yn dangos yn glir bod hyn wedi cael effaith ar sicrhau bod gan y staff sgiliau cyfredol. Mae'r data a ddarperir ar gyfer hyfforddiant cynnal bywyd lefel 1 a 2 o dan 40%. Mae hyn yn golygu nad oes gan dros hanner y staff ar y ward sgiliau na gwybodaeth gyfredol yn y maes hwn.

Er ein bod yn cydnabod bod COVID-19 wedi cael effaith fawr ar ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r wybodaeth am hyfforddiant a rhoi sicrwydd bod gan y staff ar ddyletswydd y sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Yn ogystal â hyn, dylid adolygu'r oedi o ran cofnodi data hyfforddiant cywir a dylid cymryd camau i wella'r broses.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Tywysog Philip

Ward: Ward Bryngofal

Dyddiad y gweithgarwch: 26 Hydref 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu rhestr wirio wythnosol rheolwr y ward er mwyn sicrhau bod y drws tân yn cael ei adnewyddu cyn gynted â phosibl a threfnu bod y materion hirsefydledig yn cael eu datrys.	Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<ul style="list-style-type: none">- Adolygu'r rhestr wirio a nodi materion nad ymdriniwyd â nhw.- Uwchgyfeirio mater y drws tân i'r Cyfarwyddwr Ystadau.- Uwchgyfeirio unrhyw faterion hirsefydledig eraill i'r rheolwr gweithrediadau ystadau.- Datrys materion hirsefydledig a chytuno ar gynllun gweithredu er mwyn mynd i'r	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Pennaeth y Gwasanaeth</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwr Gweithrediadau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

			afael â'r rhain.		
2	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r data digwyddiadau a gyflwynir i AGIC a darparu mwy o fanylion/dadansoddiadau o'r digwyddiadau.	Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> - Adolygu'r holl ddata ar ddigwyddiadau ar ward Bryngofal o'r chwarter diwethaf. - Nodi unrhyw themâu sy'n codi o'r adroddiadau chwarterol ar ddigwyddiadau. - Cynnal dadansoddiad o'r canfyddiadau. - Cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad i'r fforwm rheolwyr wardiau. 	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward Uwch-nyrs/Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd
3	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu archwiliad C4C a sicrhau y cymerir unrhyw gamau nad ydynt wedi cael eu cymryd eisoes ac y darperir tystiolaeth o hyn.	Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> - Rheolwr y Ward i adolygu materion nyrsio nad ymdriniwyd â nhw y mae angen eu datrys ac unioni'r materion hyn. - Anfon unrhyw faterion a nodwyd ar gyfer yr adran ystadau ymlaen at y Rheolwr Gweithrediadau Ystadau a'u datrys. - Rheolwr y Ward i gwblhau ac adolygu archwiliad C4C er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu datrys. 	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward/Rheolwr Gweithrediadau Rheolwr y Ward/Goruchwylydd Domestig	Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd

4	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r data ar hyfforddiant a rhoi sicrwydd bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol er mwyn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol, yn ogystal ag adolygu'r data ar hyfforddiant er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau yn darparu ffigur cydymffurfio cywir a chyfredol.	Safonau Iechyd a Gofal - 3.4 llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg gyfathrebu a 7.1 y gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> - Craffu ar gydymffurfiaeth o ran hyfforddiant a chwblhau datganiad sefyllfa. - Lle nodir cydymffurfiaeth wael, caiff cynllun gwella ei lunio. - Bydd y fforwm rheolwyr wardiau yn monitro ac yn craffu ar gydymffurfiaeth yn erbyn y cynllun gwella. - Yna, byddai unrhyw faterion y mae angen eu huwchgyfeirio yn cael eu huwchgyfeirio at Bennaeth y Gwasanaeth er mwyn cyflwyno'r materion hyn i'r Grŵp Sicrwydd Cynllunio Busnes Iechyd Meddwl/Anabledau Dysgu. 	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
				Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
				Uwch-nyrs	Cwblhawyd
				Uwch-nyrs	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Kay Isaacs

Dyddiad: 14 Ionawr 2021